**HYSBYSIAD O ORCHYMYN LLWYBR CYHOEDDUS**

**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990, ADRAN 257**
**A PHARAGRAFF 1 ATODLEN 14**

**HYSBYSIAD TRAFFIG DROS DRO**
**(DARGYFEIRIO LLWYBR TROED 55 LLANGRALLO UCHAF)**
**DARGYFEIRIO LLWYBR CYHOEDDUS RHIF 2 2025**

Gwnaed y gorchymyn uchod ar 10/09/2025. Effaith y Gorchymyn fydd dargyfeirio'r rhan honno o Lwybr Troed 55 Llangrallo Uchaf sy’n dechrau ym Mhwynt A (Cyfeirnod Grid SS 9362 8465) ac yn parhau i gyfeiriad cyffredinol y de am 185 metr hyd at Bwynt B (Cyfeirnod Grid SS 9365 8447), ac yna’n parhau i gyfeiriad cyffredinol y de-ddwyrain am 250 metr hyd at Bwynt C (Cyfeirnod Grid SS 9381 8429) lle mae'n ymuno â Llwybr Troed 37 **i** ran newydd o lwybr troed sy’n dechrau wrth y gyffordd â Llwybr Troed 37 ym Mhwynt D (Cyfeirnod Grid SS 9395 8439) ac yn parhau i'r gorllewin am 8 metr hyd at Bwynt E (Cyfeirnod Grid SS 9395 8440), yna'n parhau i gyfeiriad cyffredinol y gogledd-ogledd-orllewin am 201 metr hyd at Bwynt F (Cyfeirnod Grid SS 9386 8458) cyn parhau i gyfeiriad cyffredinol y gogledd-ddwyrain am 19 metr hyd at Bwynt G (Cyfeirnod Grid SS 9387 8459), yna’n parhau i gyfeiriad cyffredinol y gogledd-ogledd-orllewin ar hyd ffin cae am 99 metr hyd at Bwynt H (Cyfeirnod Grid SS 9382 8467), yna’n troi i'r gorllewin ac yn parhau am 195 metr hyd at Bwynt I (Cyfeirnod Grid SS 9363 8463) yna’n troi i'r gogledd-ogledd-orllewin ac yn parhau am 22 metr i ailymuno â Llwybr Troed 55 wrth Bwynt A (Cyfeirnod Grid SS 9362 8465) fel y dangosir ar fap y gorchymyn.

Bydd y Llwybr Troed yn cael ei gyfyngu gan gât cae i BS 5709:2018 ym Mhwynt E (Cyfeirnod Grid SS 9395 8440), a dwy gât cerddwyr i BS 5709:2018 ym Mhwynt X1 (Cyfeirnod Grid SS 9364 8463) a Phwynt X2 (Cyfeirnod Grid SS 9364 8463).

Mae copi o'r gorchymyn a map y gorchymyn wedi'u gosod a gellir eu gweld am ddim ym mhrif dderbynfa Swyddfeydd Dinesig Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn y cyfeiriad isod rhwng 8.30am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Iau a 8.30am i 4.30pm ar ddydd Gwener. Gellir cael copïau o'r Gorchymyn a'r map am ddim. Fel arall, mae copi o'r gorchymyn a'r map hefyd ar gael drwy gysylltu â: rightsofway@bridgend.gov.uk / ffôn: 01656 642537) neu gellir eu harchwilio ar-lein yn: https://www.penybontarogwr.gov.uk/cyngor/hysbysiadau-cyfreithiol-a-gorchmynion/.

Gellir anfon neu gyflwyno unrhyw sylwadau neu wrthwynebiadau am y gorchymyn yn ysgrifenedig at: K Watson, Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol yn y cyfeiriad isod heb fod yn hwyrach na hwyrach **23/10/2025**. Nodwch ar ba seiliau y cânt eu gwneud. Sylwer y gall y Cyngor ystyried yr holl sylwadau sy’n dod i law yn gyhoeddus ac y gallai sylwedd unrhyw sylw ynghyd ag enw a chyfeiriad y person sy'n ei wneud) fod ar gael i’w harchwilio’n gyhoeddus.

Os na ddaw sylwadau neu wrthwynebiadau i law, neu os gwneir rhai a dynnir yn ôl gall Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr gadarnhau’r gorchymyn fel gorchymyn nas gwrthwynebwyd. Os anfonir y gorchymyn at Weinidogion Cymru i’w gadarnhau, caiff unrhyw sylwadau neu wrthwynebiadau na chawsant eu tynnu’n ôl eu hanfon gyda’r gorchymyn.

Os cewch unrhyw anhawster wrth ymateb yn ysgrifenedig, neu os oes angen yr hysbysiad hwn arnoch mewn fformat arall, er enghraifft, print mwy, sain, braille neu ffacs, cysylltwch â'r Adran Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoliadol yn y cyfeiriad isod neu drwy ffonio’r Ganolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid ar 01656 643643. Mae'r Cyngor yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Bydd unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael ei hateb yn y Gymraeg ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

**DYDDIAD:18/09/2025**

K Watson, Prif Swyddog, Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol – Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB.

K Watson, Chief Officer Legal and Regulatory Services, Human Resources and Corporate Policy – Chief Executive’s Directorate, Bridgend County Borough Council, Civic Offices, Angel Street, Bridgend CF31 4WB.